Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr cynrychiolydd cyswllt maes dysgu ar gyfer addysg bellach

**o**

**Fedi 2017**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/y cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Rhan 1:  Cyn yr arolygiad** **2**

Adran A:  Rôl a chyfrifoldebau 2
Adran B:  Rhoi'r darparwr mewn cyd-destun 4
Adran C:  Hunanasesiad 5
Adran Ch:  Casglu tystiolaeth 6

**Rhan 2:  Yn ystod yr arolygiad** **10**

Adran A:  Rôl a chyfrifoldebau 10
Adran B:  Taith trwy'r cyfnod arolygu 10
Adran C:  Y dogfennau sy'n ofynnol yn ystod yr arolygiad 11
Adran Ch:  Prosesau sicrhau ansawdd yr arolygiaeth 12

**Rhan 3:  Ar ôl yr arolygiad** **13**

**Atodiad 1:  Taith trwy wythnos yr arolygiad** **14**

## Cyflwyniad

Lluniwyd y llawlyfr hwn ar gyfer y rheolwyr hynny mewn addysg bellach a benodwyd i swydd cynrychiolydd cyswllt y maes dysgu ar gyfer arolygu meysydd dysgu dethol. Cyswllt y maes dysgu fydd cynrychiolydd maes dysgu'r darparwr yn ystod ei arolygiad. Datblygwyd y llawlyfr hwn gydag anghenion y swydd hon mewn golwg yn bennaf, ac mae pwyslais cryf ar ei ddefnyddio'n ymarferol. Mae'n ymateb i'r cwestiwn sydd i'w glywed yn gyffredin - "Beth y mae angen i mi ei wybod er mwyn bod yn gynrychiolydd cyswllt maes dysgu effeithiol?". Bydd treulio amser yn darllen drwy'r llawlyfr yn rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch i baratoi ar gyfer eich arolygiad ac i ddeall pwysigrwydd y swydd fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu'r darparwr.

**Pwy ddylai fod yn gynrychiolydd cyswllt maes dysgu?**

Mae cynrychiolydd cyswllt maes dysgu yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o gynnal arolygiad. Mae'n hanfodol bod cynrychiolydd cyswllt maes dysgu mewn swydd weithredol yn y maes dysgu a'i fod yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o waith y maes dysgu hwnnw. Bydd yr arolygiaeth yn caniatáu am hyd at dri chynrychiolydd cyswllt maes dysgu ar gyfer pob maes dysgu sy'n cael ei arolygu, fel bod pob safle neu bob pwnc o fewn y maes dysgu hwnnw'n cael sylw.

Mae pedair rhan i lawlyfr cynrychiolydd cyswllt maes dysgu:

**Rhan 1:** Cyn yr arolygiad

**Rhan 2:** Yn ystod yr arolygiad

**Rhan 3:** Ar ôl yr arolygiad

**Rhan 4:** Cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein (bydd ar gael ar-lein maes o law)

Gobeithiwn y bydd y llawlyfr yn ddefnyddiol i chi ac, yn bennaf oll, yn hawdd ei ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer eich arolygiad.

Mae rhan 1 a rhan 2 yn cynnwys y wybodaeth a'r camau gweithredu hanfodol y bydd eu hangen ar wahanol adegau yn ystod cyfnod yr arolygiad. Mae rhan 3 yn manylu'n fras ar rôl y cynrychiolydd cyswllt maes dysgu ar ôl yr arolygiad, ac mae rhan 4 yn esbonio'r canllaw adolygu ar-lein yn fanylach.

Byddai'n ddefnyddiol petai gennych eich copi o arweiniad arolygu 2017 Estyn ar gyfer y sector wrth law er mwyn cyfeirio ato wrth i chi fynd drwy'r llawlyfr. Mae'n hollbwysig eich bod yn gyfarwydd ag arweiniad arolygu eich sector cyn yr arolygiad.

Er mwyn gweithredu fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu mewn arolygiad, byddwch yn fwy gwybodus os byddwch wedi darllen llawlyfr y cynrychiolydd cyswllt maes dysgu ac wedi cwblhau'r canllaw adolygu ar-lein.

## Rhan 1:  Cyn yr arolygiad

Mae pedair adran i'r rhan hon.

**Adran A –** bydd yn eich helpu i ymgyfarwyddo â'r rôl a'ch cyfrifoldebau.

**Adran B –** bydd yn rhoi arweiniad ar weithio gydag arolygydd arweiniol y maes dysgu er mwyn rhoi eich sefydliad mewn cyd-destun.

**Adran C –** bydd yn caniatáu i chi archwilio'n fyr yr agweddau allweddol ar hunanarfarnu effeithiol.

**Adran Ch –** bydd yn rhoi arweiniad ar gasglu tystiolaeth ar gyfer y tîm.

### Adran A:  Rolau a chyfrifoldebau

Bydd yr adran hon yn esbonio'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu'r darparwr.

Dylai'r adran hon eich galluogi chi i:

- gael dealltwriaeth dda o rôl cynrychiolydd cyswllt maes dysgu
- gwybod a deall y protocol sy'n llywio gwaith cynrychiolydd cyswllt maes dysgu

**Cefndir**

Mae arolygiadau'n cynnig cyfle i gynnwys darparwyr yn weithgar yn y broses arolygu trwy alluogi cynrychiolydd cyswllt maes dysgu o'r sefydliad i weithio gyda'r tîm arolygu.  Diben hyn yw galluogi mwy o gyfraniad gan y darparwr a chryfhau'r bartneriaeth rhwng y tîm arolygu a staff y darparwr.  Hefyd, mae'n rhoi cipolwg gwell i'r broses arolygu, ynghyd â chynnig cyfleoedd gwerthfawr am ddatblygiad proffesiynol.

Caiff darparwyr eu gwahodd i ddewis cynrychiolydd cyswllt maes dysgu ar gyfer pob un o'r meysydd dysgu sydd i'w harolygu.

**Cynrychiolydd cyswllt maes dysgu**

Fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu, dylech fod mewn swydd ddigon uchel yn y maes dysgu i feddu ar wybodaeth fanwl, dda o waith y maes dysgu a'r systemau sicrhau ansawdd.  Mae rôl cynrychiolydd cyswllt maes dysgu o bwys mawr i arolygwyr, gan fod cynrychiolydd cyswllt maes dysgu yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod yr arolygiad yn mynd rhagddo yn hwylus a bod arolygwyr yn gweld yr holl dystiolaeth berthnasol fel y gallant lunio barnau dilys a dibynadwy.  Os bydd y darparwr yn penderfynu peidio â derbyn y cynnig i gael cynrychiolydd cyswllt maes dysgu, ni fydd hyn yn cael effaith negyddol ar yr arolygiad.  Ni fydd y ffaith nad oes cynrychiolydd cyswllt maes dysgu gan ddarparwr yn cael unrhyw effaith ar farnau'r tîm arolygu.

**Cynrychiolydd cyswllt maes dysgu effeithiol**

Mae cryn bwysau'n perthyn i rôl cynrychiolydd cyswllt maes dysgu a bydd yn gofyn i chi ymddwyn yn y modd gwrthrychol sy'n hanfodol i broses arolygu allanol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i chi **barchu cyfrinachedd llym yr holl drafodaethau arolygu**. Nid rôl eiriolydd neu amddiffynnwr y darparwr fydd gennych. Eich rôl fydd helpu arolygwyr i gael at yr holl dystiolaeth y mae angen iddynt ei gweld, gwrando ar drafodaethau, deall rhesymeg arolygwyr a chyfeirio arolygwyr at dystiolaeth bellach, lle y bo'i hangen.

Mae'n bwysig iawn bod cynrychiolydd cyswllt maes dysgu yn deall y cod ymddygiad ar gyfer arolygiadau. Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd gwaith proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol tuag at ei gilydd. Disgwylir i arolygwyr ymddwyn yn unol â Chod Ymddygiad Estyn ac, yn ogystal, disgwyliwn i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- ymddwyn yn unol â'u codau ymddygiad eu hunain wrth ymwneud ag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a didwyll
- galluogi arolygwyr i arfarnu'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn ddidwyll, yn deg ac yn ddibynadwy am eu darpariaeth
- cynnal trafodaeth bwrpasol ag arolygydd arweiniol y maes dysgu a'r tîm arolygu
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwyr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu unrhyw bryderon am yr arolygiad i sylw'r arolygwyr ac enwebai'r darparwr mewn modd amserol ac addas
- gweithio gydag arolygwyr i leihau tarfu a straen cymaint â phosibl trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safleoedd

Yng ngham un, bydd cynrychiolydd cyswllt y maes dysgu:

- yn gweithio gydag arolygydd arweiniol y maes dysgu
- yn sicrhau bod tîm y maes dysgu yn gallu cael at yr holl wybodaeth a thystiolaeth berthnasol
- yn cydweithio ag enwebai'r darparwr i roi gwybodaeth lawn iddo am gynnydd
- yn gwrando ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan dimau'r meysydd dysgu
- yn cyfarfod â thîm y maes dysgu yn ddyddiol i drafod cynnydd

Cyn yr arolygiad, dylech:

- ymgyfarwyddo ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu
- ymgyfarwyddo ag arweiniad yr arolygiaeth ar rôl cynrychiolydd cyswllt maes dysgu
- chwarae rhan allweddol yng ngweithdrefnau hunanafarnu'r maes dysgu
- ymgyfarwyddo â dogfennau'r arolygiad

- cydweithio ag enwebai'r darparwr
- gwneud trefniadau gweinyddol ar gyfer yr arolygiad
- casglu ynghyd ddogfennau a thystiolaeth y maes dysgu sy'n ofynnol ar gyfer yr arolygiad

Mae rhan benodol gan gynrychiolydd cyswllt maes dysgu o ran sicrhau bod yr holl dystiolaeth i ategu hunanasesiad y maes dysgu ar gael yn hwylus ac wrth law. Os nad yw tystiolaeth ar gael, ni fydd amser gan y tîm arolygu i fynd i chwilio amdani. Yn anochel, bydd effeithiolrwydd cynrychiolydd cyswllt maes dysgu wrth gyfeirio arolygwyr at dystiolaeth yn cael effaith ar y barnau a ddyfernir gan y tîm arolygu.

**Crynodeb**

Yn yr adran hon, rydych wedi darllen am eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu. Byddai'n ddefnyddiol nawr i chi rannu eich dealltwriaeth o'ch rôl gyda staff ac uwch reolwyr cyn yr arolygiad.

## Adran B: Rhoi'r maes dysgu mewn cyd-destun

Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad i chi ar weithio gydag arolygydd arweiniol y maes dysgu er mwyn rhoi eich maes dysgu mewn cyd-destun.

Mae pob darparwr yn gweithio o dan amgylchiadau gwahanol iawn gyda heriau gwahanol. Fel cynrychiolydd cyswllt y maes dysgu, bydd gennych ran allweddol mewn helpu'r tîm arolygu i ddeall y cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo. Os ydych yn anghyfarwydd â'r math o dystiolaeth y bydd y tîm arolygu yn chwilio amdano wrth ysgrifennu adran cyd-destun yr adroddiad, gallai fod yn ddefnyddiol petaech chi, yr enwebai ac arolygydd arweiniol y maes dysgu yn cytuno ar hyn yn ystod yr arolygiad.

Cyfeiriwch at yr arweiniad ar gyfer addysg bellach

**Ynglŷn â'r maes dysgu**

Bydd y wybodaeth a ddarparwch am eich maes dysgu yn llywio barnau arolygwyr am safonau cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr, a gallai hefyd ddarparu trywyddau ymholi iddynt.

Dylai'r adran 'Cyd-destun y maes dysgu' gynnwys gwybodaeth fer am:

- faint, natur a lleoliad y maes dysgu
- y rhaglenni dysgu penodol sydd wedi'u cynnwys yn arolygiad y maes dysgu
- nifer y cyrsiau a gynigir ar wahanol lefelau
- nifer y dysgwyr yn y maes dysgu
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut mae arolygwyr yn defnyddio cyd-destun y darparwr i lywio barnau.

**Enghraifft A**

Mae arolygydd arweiniol y maes dysgu, wrth adolygu data'r maes dysgu, yn nodi nad yw'r darparwr wedi cymharu'n ffafriol â darparwyr tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Cynhyrchodd cynrychiolydd cyswllt y maes dysgu wybodaeth sy'n dangos bod dysgwyr wedi dod i'r ddarpariaeth gyda lefelau is na'r cyfartaledd o gymwysterau TGAU yn ystod y cyfnod hwn a bod lleiafrif o ddysgwyr wedi cyflawni'n well na'u graddau targed ar gyfer eu pynciau. Roedd y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan gynrychiolydd cyswllt y maes dysgu, ynghyd â thystiolaeth o arsylwadau, trafodaethau â dysgwyr a chraffu ar waith dysgwyr, wedi caniatáu i'r tîm arolygu ystyried yr holl dystiolaeth cyn llunio barn am safonau.

Cofiwch, mae'n bwysig iawn bod y dystiolaeth ar gael gennych i ategu dadansoddiad y darparwr ynghylch eich maes dysgu a'r cyd-destun y mae'n gweithio ynddo, ynghyd â thystiolaeth i ategu eich hunanasesiad.

**Crynodeb**

Yn yr adran hon, rydych wedi darllen am y math o wybodaeth y mae ei angen i roi eich maes dysgu mewn cyd-destun.

## Adran C: Hunanasesiad

Bydd y maes dysgu yn rhan o brosesau hunanasesu'r coleg. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r maes dysgu yn gwybod ei gryfderau a'i feysydd ei hun i'w gwella a pha mor dda y mae'r maes dysgu yn cyfrannu at broses hunanasesu cyffredinol y coleg.

Wrth ddewis meysydd dysgu, bydd yr arolygiaeth yn dewis ystod o gyrsiau a phynciau ac efallai na fydd y rhain yn cyfateb naill ai i gategorïau sector pwnc Llywodraeth Cymru neu i gyfadrannau neu adrannau'r darparwr. Nid oes disgwyl i feysydd dysgu a'r darparwr lunio adroddiadau hunanasesu at ddiben yr arolygiad yn unig. Lle nad yw hunanasesiadau'r darparwr yn cyfateb i elfennau o'r maes dysgu a ddewiswyd, bydd yr arolygwyr yn gweithio gyda dogfennau hunanasesu lluosog. Byddant yn dewis y wybodaeth berthnasol i lywio'u trywyddau ymholi a'u barnau.

Mae'r cysylltiad rhwng hunanasesu a chynllunio ar gyfer gwella'r darparwr yn hollbwysig. Nid yw prosesau manwl a chynhwysfawr ar gyfer hunanasesu o fawr o werth oni bai bod deilliannau hunanasesu wedi'u cysylltu'n glir â thargedau gwella'r darparwr. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r meysydd dysgu yn ymwybodol o'u targedau gwella a sut caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gwella cyffredinol y coleg.

**Crynodeb**

Yn yr adran hon, rydych wedi darllen am safle hunanasesiad y maes dysgu yn y broses arolygu. Os hoffech ddysgu rhagor am hunanasesu, ewch i wefan Estyn ar gyfer y llawlyfrau hunanasesu ôl-16.

## Adran Ch: Casglu tystiolaeth

Bydd yr adran hon ar gasglu tystiolaeth ar gyfer arolygu yn eich galluogi chi i:

- ddeall sut mae arolygwyr yn barnu cymhwyso medrau dysgwyr
- deall sut mae arolygwyr yn nodi ac yn dilyn trywyddau ymholi
- bod yn ymwybodol o'r mathau o ddogfennau y gallai arolygwyr ofyn amdanynt cyn y rhan o'r arolygiad ar y safle

Barnu cymhwysiad medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr.

Bydd y rhan hon o'r llawlyfr yn rhoi gwybodaeth i chi am y medrau y bydd arolygwyr yn eu barnu a'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiant i lunio'u barnau. Bydd yn eich helpu chi i wybod pa dystiolaeth y dylech ei darparu a sut bydd arolygwyr yn llunio'u barnau.

**Sut bydd arolygwyr yn barnu medrau dysgwyr?**

Fel arfer, caiff llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol eu harolygu fel maes dysgu ar wahân ym mhob arolygiad. Bydd arolygwyr penodol yn cael eu neilltuo i'r rolau hyn yn ystod arolygiadau cam un.

Fodd bynnag, bydd pob arolygydd yng ngham un yn arfarnu a oes gan ddysgwyr yn eu maes dysgu y medrau mewn cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol.

Bydd arolygwyr yn rhoi'r pwys mwyaf ar fedrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, yn enwedig darllen ac ysgrifennu. Bydd pob arolygydd yng ngham un hefyd yn adrodd ar fedrau llythrennedd digidol dysgwyr lle y mae'r meysydd hyn yn arbennig o dda neu lle nad ydynt wedi'u datblygu ddigon a'u bod yn cael effaith niweidiol ar eu cynnydd.

Bydd arolygwyr yn barnu pa mor dda y mae medrau dysgwyr yn eu galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm ar sail tystiolaeth o arsylwi gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith dysgwyr a thrwy siarad â dysgwyr. Er enghraifft, bydd siarad â dysgwyr yn darparu tystiolaeth o'u medrau siarad a gwrando, pa gynnydd a wnaethant yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, ynghyd â'u dealltwriaeth o'u gwaith neu swydd. Bydd craffu ar waith yn dangos a yw dysgwyr yn gallu ysgrifennu'n glir a darllen er dealltwriaeth ar y lefelau priodol. Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae medrau cyfathrebu dysgwyr yn cefnogi neu'n rhwystro cynnydd yn yr ystafell ddosbarth a rhyngweithio â thiwtoriaid a chymheiriaid.

Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth i benderfynu a yw dysgwyr yn meddu ar y medrau i:

- ymdopi â galwadau eu dysgu
- gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm/meysydd dysgu, llwybr dysgu neu yn

y gwaith
- ymdopi â galwadau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol bywyd bob dydd

Bydd arolygwyr yn ystyried parodrwydd dysgwyr i ddatblygu a defnyddio’r medrau a enillwyd ganddynt mewn sefyllfaoedd gwahanol, newydd neu anghyfarwydd, ynghyd â pha mor dda y maent yn cymhwyso’u medrau heb gymorth.

Bydd arolygwyr yn ystyried lefelau gallu dysgwyr wrth ystyried tystiolaeth a phennu barnu.

Bydd arolygwyr yn defnyddio’r amserlenni a ddarperir gan y darparwr cyn yr arolygiad i nodi’r sesiynau y byddant yn eu harsylwi a phryd y byddant yn cynnal teithiau dysgu.

Ni fydd arolygwyr yn hysbysu staff o’r sesiynau y byddant yn eu harsylwi.

**A fydd arolygwyr yn arsylwi rhaglenni cymorth, fel sesiynau medrau hanfodol a sylfaenol a sesiynau cymorth llythrennedd a rhifedd?**

Fel rhan o’u rôl, bydd arolygwyr meysydd dysgu llythrennedd a rhifedd yn cynnwys dysgwyr sy’n cael cymorth penodol i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol, fel rhaglenni medrau hanfodol/sylfaenol, yn eu sail dystiolaeth. Byddant yn cynnwys TGAU Saesneg a mathemateg/rhifedd hefyd. Bydd arsylwadau o’r dysgwyr hyn yn rhoi tystiolaeth i arolygwyr o ba mor dda y mae’r dysgwyr hyn yn cyflawni mewn tasgau a gweithgareddau dysgu bob dydd. Cynghorir bod enwebeion yn darllen yr arweiniad atodol ar arolygu medrau a’u bod yn gyfarwydd ag ef.

**A fydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr?**

Bydd pob arolygydd mewn arolygiadau cam un yn pennu barn dysgwyr ynghylch pa mor dda y maent yn ei wneud o ran datblygu a chymhwyso medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol a byddant yn darganfod a yw dysgwyr yn gwybod faint o gynnydd y maent wedi’i wneud a beth y mae’n rhaid iddynt ei wneud i wella. Bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr mewn arsylwadau ystafelloedd dosbarth ac yn ystod teithiau dysgu.

**A fydd arolygwyr yn craffu ar samplau o waith dysgwyr?**

Bydd arolygwyr yn craffu ar samplau o waith dysgwyr i fodloni anghenion y trywyddau ymholi a nodwyd gan y tîm arolygu. Os bydd angen, bydd arolygwyr yn dweud wrthych pa samplau o waith disgyblion y bydd arnynt eu hangen.

**Ymhle y bydd arolygwyr yn adrodd ar fedrau dysgwyr yn y Fframwaith Arolygu?**

Yng ngham un

Bydd llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn cael adroddiad ar wahân o arolygiadau cam un, yn unol â’r meysydd dysgu eraill a ddewiswyd.

Yng ngham dau

Yng Nghwestiwn Allweddol 1, bydd arolygwyr yn adrodd ar ba un ai a yw’r holl ddysgwyr yn meddu ar y medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a’u helpu i wneud cynnydd yn y gwaith.

Yng Nghwestiwn Allweddol 2, bydd arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth ar gyfer medrau. Yn y farn gyffredinol ar addysgu, hyfforddi ac asesu, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r rhain yn bodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys datblygiad eu medrau ymarferol.

Yng Nghwestiwn Allweddol 3, fel rhan o'u barnau am arweinyddiaeth a sicrhau ansawdd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn datblygu, yn cefnogi, yn monitro ac yn arfarnu strategaethau'r darparwr a'i bolisïau ar gyfer datblygu medrau dysgwyr.

### Trywyddau ymholi

Bydd y rhan hon o'r adran yn rhoi gwybodaeth i chi am sut mae arolygwyr yn nodi ac yn dilyn trywyddau ymholi.

Mae'r llawlyfr arweiniad yn esbonio mai'r man cychwyn ar gyfer arolygiadau cam un a cham dau yw asesiad y darparwr o'i berfformiad ei hun, gyda gwybodaeth berthnasol am berfformiad yn ei ategu. Dylech fod yn ymwybodol na fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar waith yn fanwl yn ystod arolygiad. Byddant yn samplu tystiolaeth i brofi barnau'r maes dysgu ei hun am ei waith.

Yng ngham un, bydd arolygwyr arweiniol y maes dysgu yn llunio trywyddau ymholi ar ôl craffu ar adroddiadau hunanasesu'r maes/meysydd dysgu a gwybodaeth arall y mae'r sefydliad yn ei darparu, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd gan yr arolygiaeth. Bydd y trywyddau ymholi hyn yn cael eu rhannu gyda'r enwebai a chynrychiolydd cyswllt y maes dysgu ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad.

Caiff yr arolygiad ei gynllunio fel y bydd timau'r meysydd dysgu'n gallu dilyn y trywyddau ymholi a nodwyd sy'n benodol i'r meysydd dysgu a chwmpasu gofynion y fframwaith arolygu cyffredin.

Bydd arolygwyr yn ystyried canlyniadau holiduron Estyn i ddysgwyr ac unrhyw holiaduron mewnol i ddysgwyr sy'n cael eu cynnal gan eich darparwr. Gallai arolygwyr ddefnyddio'r holiaduron i ddilyn trywydd ymholi.

### Dogfennau

Bydd y rhan olaf hon o'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y dogfennau y bydd arolygwyr yn gofyn amdanynt cyn yr arolygiad i'w helpu i lywio'u barnau.

Bydd rhan 2 y llawlyfr yn rhoi gwybodaeth i chi am ba ddogfennau y gallai fod eu hangen yn ystod yr arolygiad. Cewch fanylion llawn am y ffynonellau tystiolaeth yn Atodiad 2 y llawlyfr arweiniad.

### Y dogfennau y mae eu hangen cyn yr arolygiad

Bydd bron holl gysylltiad y darparwr cyn yr arolygiad â'r Cydlynydd Arolygu (CydAr) a thrwy'r enwebai. Bydd y CydAr yn ffonio'r enwebai tua phedair wythnos cyn yr arolygiad i roi gwybod iddo/iddi am ddyddiad yr arolygiad. Yn ystod y sgwrs ffôn hon, bydd y CydAr yn rhoi manylion y meysydd dysgu i'w harolygu, a'r timau arolygu, i'r enwebai. Bydd y CydAr yn trafod trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Pan fydd eich enwebai wedi cael gwybod y bydd arolygiad yn cael ei gynnal, gofynnir i'r enwebai ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer yr ystafell arolygu rithwir:

- gwybodaeth gefndir allweddol am y sefydliad
- copi o'r adroddiad(au) hunanasesu a'r cynllun gwella diweddaraf

- y data diweddaraf, heb ei wirio
- cynllun llawn o holl weithgareddau arfaethedig y staff yn ystod wythnos yr arolygiad

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn i'r enwebai roi gwybod i randdeiliaid eraill am yr arolygiad fel y gall arolygwyr ofyn iddynt am eu barn.

Bydd yr enwebai neu bennaeth y coleg yn penodi cynrychiolwyr cyswllt meysydd dysgu ar gyfer y meysydd dysgu dethol sydd i'w harolygu.  Bydd yr enwebai yn cydweithio â chynrychiolwyr cyswllt meysydd dysgu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am y trefniadau arolygu.  Gallai'r enwebai ofyn i gynrychiolwyr cyswllt meysydd dysgu ddarparu gwybodaeth cyn wythnosau'r arolygiad ei hun.

## Crynodeb

Yn yr adran hon, darllenoch am sut mae arolygwyr yn barnu medrau, y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiant i lunio'u barnau a sut y byddant yn adrodd ar fedrau.  Hefyd, darllenoch am sut y gallai arolygwyr nodi trywydd ymholi a'r dogfennau y bydd arolygwyr yn gofyn amdanynt cyn yr arolygiad.

## Rhan 2: Yn ystod yr arolygiad

**Adran A** – bydd hon yn eich cyfarwyddo chi â'ch rôl yn ystod yr arolygiad

**Adran B** – bydd yn rhoi gwybodaeth i chi am beth sy'n digwydd yn ystod y rhan o'r arolygiad ar y safle

**Adran C** – bydd yn esbonio sut mae'r dystiolaeth ddogfennol y gofynna'r tîm arolygu amdani yn ystod arolygiad yn cefnogi trywyddau ymholi

**Adran Ch** – bydd yn egluro prosesau sicrhau ansawdd yr arolygiaeth

**Adran D** – bydd yn cynnwys cyfres o gwestiynau cyffredin

### Adran A: Rôl a chyfrifoldebau

Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn ystod yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, bydd cynrychiolydd cyswllt y maes dysgu yn:

- sicrhau bod pob arolygydd yn hollol wybodus am gyd-destun gwaith y maes dysgu
- gweithio gyda thîm arolygwyr y maes dysgu i sicrhau eu bod yn gallu cael at yr holl dystiolaeth berthnasol
- cyfrannu at gyfarfodydd tîm arolygu'r maes dysgu yn ystod cam un
- clywed y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan y tîm a chydweithio ag enwebai dynodedig y darparwr

**Crynodeb**

Yn yr adran hon, byddwch yn darllen am eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn ystod yr arolygiad. Bydd rhannu hyn gyda rheolwyr a staff yn ddefnyddiol, fel bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r hyn y bydd disgwyl i chi ei wneud.

### Adran B: Taith trwy'r cyfnod arolygu

Bydd yr adran hon yn eich galluogi chi i gael dealltwriaeth well:

- o'r hyn y bydd y tîm arolygu yn ei wneud yn ystod wythnos yr arolygiad
- a'ch rôl mewn cyfarfodydd tîm

Mae Atodiad 1 yn darparu model posibl o sut y gallai arolygwyr ddefnyddio'u hamser yn ystod yr arolygiad. Byddai'n ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda staff cyn yr arolygiad.

Nodwedd bwysig iawn o'r broses arolygu yw'r cyfarfodydd tîm. Fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu, gallwch gyfarfod â thîm arolygu'r maes dysgu yn ddyddiol, a dylech wneud hyn.

Eich rôl yn y cyfarfodydd hyn yw gwrando'n astud ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan y tîm arolygu. Fe'ch cynghorir i wneud cofnodion at ddiben cyfeirio atynt ar ôl y cyfarfod ac ar gyfer cyswllt â'r enwebai. Nid rôl eiriolwr nac amddiffynnwr y darparwr sydd gennych. Eich rôl yw helpu arolygwyr i gael at yr holl dystiolaeth y mae arnynt angen ei gweld, gwrando ar drafodaethau, deall rhesymu arolygwyr a chyfeirio arolygwyr at dystiolaeth bellach, lle y bo'i hangen. Mae'n bosibl na fyddwch yn gallu darparu gwybodaeth a thystiolaeth bellach ar unwaith, ond gallai fod angen i chi siarad â'ch enwebai a thîm eich maes dysgu cyn darparu'r dystiolaeth hon mor gynnar â phosibl y diwrnod canlynol.

Fel cynrychiolydd cyswllt maes dysgu, mae'n bwysig eich bod yn talu sylw dyledus i brotocol safonol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y cyfarfodydd tîm lle y bydd trafodaethau'n ymdrin â chryfderau a gwendidau'r maes dysgu. Mae cynrychiolwr cyswllt maes dysgu da wedi paratoi'n dda, yn wybodus ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at drafodaethau tîm. Peidiwch â bod ofn gofyn am eglurhad os dywedir rhywbeth nad ydych chi'n ei ddeall. Wedi'r cyfan, chi sy'n debygol o fod yn allweddol ar gyfer helpu i symud y maes dysgu yn ei flaen yn dilyn yr arolygiad, felly mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod pam mae pethau'n cael eu dweud.

### Crynodeb

Yn yr adran hon, darllenoch am wythnos yr arolygiad. Mae'n bosibl y dymunwch ystyried sut y gellir rhannu'r wybodaeth hon gyda staff fel eu bod yn ennill gwell dealltwriaeth o'r broses arolygu.

## Adran C: Y dogfennau y mae eu hangen yn ystod yr arolygiad

Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am yr ystod dogfennau y gallai arolygwyr ofyn amdani i'w helpu i farnu gwaith y darparwr yn gysylltiedig â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Mae atodiad 2 yn eich llawlyfr sector yn cynnwys manylion y prif ffynonellau tystiolaeth ddogfennol. Darllenwch y wybodaeth yn yr atodiad hwn cyn parhau.

Gan eich bod wedi darllen am y prif ffynonellau tystiolaeth ddogfennol erbyn hyn, byddwch yn gwybod am y math o wybodaeth y gallai arolygwyr ofyn amdano. Dylech nodi efallai na fydd arolygwyr yn gofyn am yr holl wybodaeth hon, ond byddant yn dewis y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ategu eu trywyddau ymholi. Mae'r enghreifftiau canlynol yn canolbwyntio ar y mathau o dystiolaeth ddogfennol y gallai arolygwyr ofyn amdani i ddilyn trywydd ymholi. Yn ogystal â thystiolaeth ddogfennol, gallent arsylwi'r gwaith o weithredu polisïau a gweithdrefnau yn ymarferol a gofyn am farn dysgwyr, cyflogwyr a staff.

### Crynodeb

Yn yr adran hon, darllenoch am sut y gellir gofyn am dystiolaeth ddogfennol er mwyn cefnogi trywydd ymholi. Byddai'n ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda rheolwyr a staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r broses arolygu.

## Adran Ch:  Prosesau sicrhau ansawdd yr arolygiaeth

Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi am sut mae'r arolygiaeth yn sicrhau ansawdd arolygiadau.

Yng ngham un, bydd Arolygydd Sicrhau Ansawdd (ASA) yn ymuno â'r timau arolygu. Fel arfer, bydd yr ASA yn ymuno â'r timau brynhawn dydd Mercher a'r dydd Iau. Fodd bynnag, gallai'r ACof ofyn i'r ASA ymuno â'r arolygiad yn gynt os bydd materion arwyddocaol yn cyfiawnhau cael barn annibynnol.  Gallai'r ASA hefyd ddewis ymweld â'r darparwr yn gynt yn ystod y naill wythnos neu'r llall i gynnal teithiau dysgu ac i sefydlu cyd-destun ar gyfer y gwaith arolygu.

Mae monitro arolygiadau ac adroddiadau arolygu yn caniatáu i'r arolygiaeth:

- asesu gwaith arolygwyr tîm ar ymweliadau arolygu, ynghyd â gwaith yr arolygydd cofnodol; gwirio pa mor dda y mae'r enwebai yn deall ei rôl a phrotocol yr enwebai
- sicrhau bod pob arolygydd yn cydymffurfio â gofynion y fframwaith a'r arweiniad arolygu perthnasol
- codi materion cysondeb mewn arfer o arolygiad i arolygiad
- herio'r tîm arolygu
- defnyddio'r wybodaeth i bennu faint o waith fydd yn y dyfodol i arolygwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr arolygiaeth
- defnyddio'r holl wybodaeth sicrhau ansawdd i lywio hyfforddiant ac arweiniad pellach

### Crynodeb

Yn yr adran hon, darllenoch am sut mae'r arolygiaeth yn monitro ansawdd gwaith ei arolygwyr ei hun a'r arolygwyr sydd dan gontract iddi.  Byddai'n ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda staff a llywodraethwyr fel eu bod wedi paratoi'n dda os caiff ansawdd yr arolygiad ei sicrhau.

## Rhan 3:  Ar ôl yr arolygiad

Yn fyr, mae’r adran hon yn adolygu rôl cynrychiolydd cyswllt maes dysgu ar ôl cwblhau’r rhan o’r arolygiad ar y safle.

Ar ôl yr arolygiad, bydd yr enwebai’n cael copi drafft o’r adroddiad arolygu, gan gynnwys yr adroddiadau ar gyfer y meysydd dysgu.  Gofynnir i’r enwebai wirio’r adroddiad am ei gywirdeb ffeithiol cyn i’r adroddiad gael ei gyhoeddi.  Gallai’r enwebai ofyn i chi wirio adroddiad y maes dysgu am ei gywirdeb ffeithiol neu ddarparu gwybodaeth lle y bo’n berthnasol.

Rydych yn awr wedi darllen trwy’r llawlyfr a gallwch ddechrau paratoi ar gyfer eich arolygiad.  Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ddarllen arweiniad Estyn ar baratoi ar gyfer arolygiad nawr.  Gweler gwefan Estyn am lawlyfrau Arolygiadau.

## Atodiad 1:  Taith trwy wythnos yr arolygiad

Bwriedir i'r wybodaeth ganlynol ddarparu rhagor o wybodaeth gyffredinol am fodel arolygiadau Estyn.  Dylai cynrychiolwyr cyswllt meysydd dysgu nodi hefyd y bydd y model sydd wedi'i amlinellu isod yn amrywio ychydig yn ôl maint y darparwr a'r sector sy'n cael ei arolygu.

Cam un – sylwer mai amlinelliad o fodel yw hwn ac y gallai'r amserau go iawn amrywio yn ôl gofynion yr arolygiad.

| Diwrnod | Amser | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| Dydd Llun | 12 canol dydd | Arolygwyr yn cyrraedd |
| | 12:30 pm | Cyfarfod tîm cyn-arolygiad ar gyfer y tîm llawn |
| | 2:00pm | Teithiau dysgu a chyfarfodydd tîm meysydd dysgu |
| Dydd Mawrth | 8:30 tan 18:00 | Gweithgarwch arolygu a chyfarfodydd tîm |
| Dydd Mercher | 8:30 tan 18:00 | Gweithgarwch arolygu a chyfarfodydd tîm |
| Dydd Iau | 8:30 tan 13:00 | Gweithgareddau dilynol, amser ysgrifennu a chyfarfodydd barn |
| | 13:00 tan 18:00 | Cyfarfodydd cymedroli ac ysgrifennu |
| Dydd Gwener | 9:00 tan 11:30 | Ysgrifennu terfynol ar gyfer timau |
| | 11:30 | Cyfarfod tîm llawn i rannu deilliannau |
| | 13:00 | Adborth i dimau meysydd dysgu |